**Pwyllgor Diwylliant-CC-10-02(p.1)**

**Dyddiad:** 15 Mai 2002

**Lleoliad:** Ystafell Bwyllgora 2

**Teitl:** Papur ymgynghori ar Strwythur Strategol ac Ymgynghorol i Amgueddfeydd, Llyfrgelloedd ac Archifdai yng Nghymru

**Lleoliad: Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**"CYRFF CYHOEDDUS" A DEDDF YR IAITH GYMRAEG 1993**

**Diben**

1. Rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor o'r broses a'r drefn sydd ynghlwm â pharatoi is - ddeddfwriaeth o dan Adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg.

**Cefndir**

2. Yng nghyfarfod y Pwyllgor ar 17 Ebrill, cyflwynwyd papur yn ymwneud â'r materion cyfreithiol i'w hystyried ynghylch pennu cyrff fel "cyrff cyhoeddus" at ddibenion adran 6(1)(o) o Ddeddf yr Iaith Gymraeg 1993. Codwyd gwahanol bwyntiau yn ystod y drafodaeth a gofynnwyd am bapur pellach.

3. Atgoffir y Pwyllgor o'r pryderon ym mharagraff 2 o'r papur blaenorol ynghylch rhoddi cyngor cyfreithiol manwl yn gyhoeddus. Pan ystyriwyd Gorchymyn Pysgodfeydd Môr De Cymru gan yr Uchel Lys ddiwedd y flwyddyn ddiwethaf, cyfeiriwyd sawl gwaith at y trafodion yn y Pwyllgor Deddfau a'r Cynulliad llawn. Yn ddiamau felly, gallai trafodaeth fanwl o'r agweddau cyfreithiol andwyo canlyniad yr ymarfer. Yn arbennig, gellid niweidio'r broses o ymgynghori os y gellir honni yn ddiweddarach fod yr achos wedi ei flaenfarnu. Fodd bynnag, y mae'n bosib rhoi gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor yngl•n â'r gweithdrefnau sydd i'w mabwysiadau a'r amser y cymer hynny.

4. Y cam cyntaf yn y broses ar gyfer delio â gorchmynion o'r math yma yw i swyddogion nodi cyrff posib. Paratoir argymhellion i'r Gweinidog i gymeradwyo cychwyn ymgynghori â'r corff

dan sylw. Bydd rhai cyrff, megis sefydliadau newydd sydd yn amlwg yn gyrff cyhoeddus at y dibenion hyn, yn ymateb yn brydlon gan gytuno â'r cynnig. Bydd rhai eraill efallai yn gwrthwynebu neu'n codi cwestiynau manwl, tra na fydd rhai eraill yn ymateb o gwbl. Ym mhob un o'r achosion hyn, rhaid cynnal proses o lythyru a allai arwain at gyfarfod, ynghyd ag ymgynghori â'r Pwyllgor Diwylliant cyn gwneud argymhelliad terfynol i'r Gweinidog fel bod modd i'r Gorchymyn gychwyn ei gwrs drwy'r Cynulliad. Mae'r broses gyfan, ers sefydlu'r Cynulliad, wedi cymeryd tua 9 mis o'r dechrau i'r diwedd, gyda gwaith yn cychwyn ar y Gorchymyn nesaf cyn gynted ag y bo'r un blaenorol wedi ei wneud.

5. Mae pob un o'r Gorchymynion blaenorol wedi cynnwys croestoriad o sefydliadau gyda gwahanol faterion i'w trin mewn perthynas â phob un. Mae'r grwpiau sydd yn awr dan ystyriaeth ar y naill law yn fwy tebyg i'w gilydd, ond ar y llaw arall yn destun proses reoleiddio ffurfiol sy'n bodoli eisioes. Fe fydd yn rhaid felly ystyried nid yn unig y cwestiynau a nodwyd eisioes yngl•n â pha gyrff i'w pennu, ond hefyd y berthynas rhwng cynllun monitro Bwrdd yr Iaith a'r cyfundrefnau rheoleiddio sydd eisioes yn bodoli. Am y rheswm hwnnw fe fydd angen cydweithio'n agos gyda'r awdurdod rheoleiddio perthnasol. Fel rhan o'r trafodaethau hynny ceisir nodi nid yn unig ba gyrff y gellir ac y dylir eu pennu o dan y Ddeddf ond hefyd sut y gellir gwella gwasanaethau yn yr Iaith Gymraeg ar draws y sector cyfan.

6. O ystyried y ffactorau hyn, a'r rhai a nodwyd yn y papur blaenorol, ni ddisgwylir y bydd y broses yn gyflymach na'r rhai mewn perthynas â'r Gorchmynion blaenorol. Mae swyddogion ar hyn o bryd yn trefnu cyfarfodydd gydag awdurdodau rheoleiddio perthnasol cyn cychwyn ymgynghori ffurfiol. Disgwylir y gellir cyflwyno adroddiad rhagarweiniol i'r Pwyllgor cyn toriad yr Haf. Cyflwynir adroddiad manylach i'r Pwyllgor yn ystod tymor yr hydref, gyda'r bwriad o gyflwyno deddfwriaeth briodol yn fuan yn 2003. Gan fod y gweinyddwr a'r cyfreithiwr sydd yn bennaf yn ymwneud â'r materion hyn ill dau â dyletswyddau eang eraill, ni fydd yn bosib symud ymlaen ym mhob sector ar yr un pryd. Deuir i farn bendant ar flaenoriaethau yn dilyn trafodaethau rhagarweiniol gyda'r awdurdodau rheoleiddio, ac fe adroddir i'r Pwyllgor ar hyn cyn toriad yr Haf.